# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 3 Gorffennaf 2013 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghr. Brian Blakeley, Martyn Holland, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd) a Jason McLellan (Cadeirydd) a Paul Whitham (Aelod Lleyg).

Roedd y Cynghr. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, a Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad, hefyd yn bresennol.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (GW); Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol (IB); Rheolwr Archwilio (BS); Pennaeth AD Strategol (LA); Rheolwr Gwasanaethau AD (CR); Prif Gyfrifydd (RW); Rheolwr Tîm Gwelliannau Corfforaethol (TW); a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ) ynghyd â Chynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru (GB ac AV)

## PWYNT HYSBYSU

Oherwydd nifer y busnes i'w drafod a chyfyngiadau amser aelodau pwyllgor, cytunwyd i ohirio Eitem Rhaglen 5 'Hunanasesiad y Pwyllgor' i'r cyfarfod nesaf ac i amrywio trefn y rhaglen i ganiatáu'r newid hwnnw.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Stuart Davies

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chodwyd unrhyw ddatganiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd 22 Mai 2013.

**Materion yn Codi** – Tudalen 8 Eitem Rhif 7 Adroddiad Gwella Blynyddol – Cynghorodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd bod Grŵp Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Archwilio wedi cytuno cyflwyno'r Gofrestr Risg Gorfforaethol i'r pwyllgor dwywaith y flwyddyn yn dilyn adolygiad gan yr Uwch Dîm Gweithredol er mwyn darparu trosolwg strategol o'r trefniadau. Ymdrinnir â

materion yn ymwneud â risgiau unigol sydd angen mwy o fanylder gan y pwyllgor archwilio priodol. Gofynnodd y Cadeirydd bod cofnodion Grŵp Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Archwilio yn cael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor er gwybodaeth. ***[KEJ i weithredu]***

Sylwodd y Cynghorydd Martyn Holland efallai na fyddai cyfeiriadau a wnaed yn y cofnodion yn cael eu deall yn rhwydd gan y rhai hynny nad oedd wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 22 Mai 2013 fel cofnod cywir.*

## 5 HUNANASESIAD Y PWYLLGOR

Oherwydd nifer y busnes i'w drafod a'r cyfyngiadau amser –

***PENDERFYNWYD*** *gohirio sesiwn Hunanasesiad y Pwyllgor tan gyfarfod nesaf y pwyllgor 4 Medi 2013.*

## 6 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol (HIAS) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru aelodau ar gynnydd diweddaraf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Amlygodd yr HIAS feysydd penodol o'r adroddiad fel a ganlyn –

- cynnydd wrth ddarparu Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2013/14
- adroddiadau archwilio mewnol diweddar a gyflwynwyd mewn perthynas â Menter Brecwast am Ddim Llywodraeth Cymru; Cyllid Myfyrwyr Addysg Uwch Llywodraeth Cymru; Systemau Ariannol - Rhuthun 2012/13; Rheoli Risg, ac Ysgol Clawdd Offa, Prestatyn
- nid oedd unrhyw bryder yn weddill ynglŷn ag ymateb rheolwyr i'r materion a godwyd gydag eitem rhaglen ar wahân ar AD Strategol,
- perfformiad Archwilio Mewnol a mesurau allweddol.

Trafododd aelodau eu gofynion adrodd ar gyfer adroddiadau archwilio mewnol, a nodwyd bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno yn dilyn dyddiad cau'r rhaglen mewn rhai achosion, ac felly nid wedi'u cynnwys i'w trafod yn y cyfarfod nesaf. Roedd yr adroddiad archwilio a gyflwynwyd mewn perthynas ag Ysgol Clawdd Offa yn disgyn i'r categori hwnnw ac roedd yn destun pryder yn sgil y sgôr sicrwydd isel a roddwyd. Cytunwyd y dylid darparu adroddiad archwilio llawn i aelodau ar adeg y cyhoeddi a bod y rhai hynny sy'n destun sgôr oren/coch yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor. ***[IB i weithredu]*** Byddai aelodau hefyd yn cael y cyfle i godi materion ynglŷn ag adroddiadau archwilio eraill yn uniongyrchol gyda'r HIAS neu yn y cyfarfod. Yn sgil pryderon aelodau ynglŷn ag Ysgol Clawdd Offa, rhoddodd yr HIAS ddiweddariad ar lafar a chytunodd y pwyllgor i dderbyn adroddiad manwl yn eu cyfarfod nesaf. ***[IB i weithredu]*** Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gwyneth Kensler, cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y gellid gwahodd yr Aelod Arweiniol i fod yn bresennol.

Ystyriodd yr aelodau ddadansoddiad o'r gwaith archwilio mewnol hefyd ar gyfer 2013/14 ac fe gadarnhaodd yr HIAS faterion mewn ymateb i gwestiynau wedi hynny gan ddarparu diffiniadau ar gyfer nifer o feysydd gwaith a'r cylch gwaith archwilio i'w gynnal o fewn y meysydd hynny. Mewn perthynas ag Archwiliadau Cronfa Ysgol, adroddodd yr HIAS ynghylch nifer o ymweliadau ysgol â thema ac fe gynghorodd ei fod wedi datblygu canllaw Saesneg clir i ysgolion a fyddai ar gael ym mis Medi.

***PENDERFYNWYD*** –

*(a)* *yn destun gweithredu'r gofynion adrodd i'r pwyllgor fel y manylir uchod, derbyn a nodi'r adroddiad cynnydd ar y Gwasanaeth Archwilio Mewnol,*

*(b)* *cyflwyno adroddiad cynnydd ar Ysgol Clawdd Offa, Prestatyn yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor 4 Medi 2013, a gwahodd yr Aelod Cabinet Arweiniol dros Addysg i fod yn bresennol.* ***[IB i weithredu]***

**7 ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL STRATEGOL AD**

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau AD (HRSM) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru aelodau ynghylch camau gweithredu a ganfuwyd fel rhan o'r adroddiad Archwilio Mewnol ar gyfer AD Strategol. Yn sgil y sgôr sicrwydd isel a roddwyd ar gyfer darparu'r cynllun gweithredu archwilio a adroddwyd i'r pwyllgor yn Chwefror 2013, roedd aelodau wedi cytuno i adolygu cynnydd a gofynnwyd am ddiweddariad yn y cyfarfod hwn.

Adroddodd yr HRSM ynghylch cynnydd y cynllun gweithredu a wnaed ers Chwefror ac fe fanylodd hefyd ynghylch gwaith pellach i'w gynnal gyda rhai terfynau amser diwygiedig. Ymhelaethodd ynghylch nifer o feysydd gwaith sy'n weddill ac a grynhowyd yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd hefyd at gynnydd y Cynllun Gwella AD a ystyriwyd fel gwaith sylweddol.

Gofynnodd aelodau am eglurhad ynghylch nifer o gamau i weithredu arnynt, cafwyd ymholiad ynghylch y rhesymau dros oedi wrth eu gweithredu ac fe ofynnwyd am sicrwydd ynghylch cynnydd yn y dyfodol. Ymatebodd swyddogion fel a ganlyn –

- adrodd ynghylch systemau TG a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer AD a gwaith yn parhau i gydweddu data o'r adran Gyflogau a Trent, ynghyd â chynlluniau i integreiddio'r systemau hynny i ganiatáu bod data'n cael ei gofnodi ar unwaith
- ymhelaethwyd ynghylch adolygiadau gallu proffesiynol ar gyfer staff AD i fesur perfformiad a chanfod unrhyw fylchau datblygu
- roedd fframwaith recriwtio newydd wedi'i gyflwyno i fynd i'r afael â'r problemau sy'n ymwneud â defnyddio geirdaon a dilysu cymwysterau, a byddai gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal i sicrhau cydymffurfiad
- cytunwyd bod penderfynu ar fylchau gallu a chynllunio olyniaeth yn hanfodol yn sgil pwysau gweithlu, a chynghorwyd bod y broses hon wedi'i hymgorffori i'r arfer cynllunio gweithlu a gynhaliwyd yn flynyddol gyda gwasanaethau

- cadarnhawyd oherwydd pwysau gwaith nid oedd yr adran Gyflogau wedi gallu mynd i gyfarfodydd gydag AD ond mae'n debygol y byddai cyfarfodydd misol yn ail ddechrau yng Ngorffennaf
- cydnabuwyd y risg i enw da'r cyngor yn codi o gyflogi cyn weithwyr a gynhwyswyd o fewn y Polisi Tâl.

Trafododd y pwyllgor gyda'r swyddogion hefyd yr angen am ddata gweithwyr cywir a theimlwyd y dylid gwneud mwy i fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Teimlodd y Cynghorydd Martyn Holland y dylai rheolwyr atebol gymryd mwy o gyfrifoldeb ac awgrymodd y dylid cyflwyno proses i reolwyr wirio cywirdeb data staff. ***[LA/CR i weithredu]***

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol (HIAS) ar lafar ynghylch yr adolygiad dilynol a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos flaenorol, gan gynghori ei fod yn dal i gael pryderon difrifol ynghylch darparu'r cynllun gweithredu archwilio a'r cynllun Gwella AD, a theimlodd nad oedd digon o gynnydd wedi'i wneud. Amlygodd mai 21 allan o'r 45 cam gweithredu gwreiddiol yn unig oedd wedi'u cwblhau ac roedd rhai terfynau amser wedi'u hymestyn fwy nag unwaith. Teimlwyd bod y cynlluniau yn rhy uchelgeisiol o ran terfyn amser ac efallai nad oedd modd eu cyflawni. Byddai'r adroddiad dilynol terfynol ar gael yn fuan a byddai dilyniad pellach yn debygol o gael ei gynnal yn Nhachwedd. Cyfeiriodd y Pennaeth AD Strategol at bwysau ychwanegol ar y gwasanaeth o ganlyniad i'r hinsawdd gyfredol a'r blaenoriaethau sy'n newid ond darparodd rhywfaint o sicrwydd ynglŷn â darparu cynlluniau gweithredu o fewn terfynau amser, gan gynghori bod adnoddau penodol ychwanegol wedi'u darparu'n benodol at y diben hwnnw. Cytunodd yr HRSM bod Cynllun Gwella AD yn uchelgeisiol ond roedd yn hyderus y byddai modd cwrdd â'r dyddiad cau yn Rhagfyr 2013 ar gyfer camau gweithredu penodol o fewn y cynllun gweithredu archwilio.

Nododd yr aelodau farn yr archwiliad a mynegwyd hyder gan swyddogion AD y gellid cwrdd â'r terfynau amser. Cytunodd y pwyllgor i barhau i fonitro cynnydd a derbyn diweddariad pellach yn eu cyfarfod nesaf.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r Adroddiad Archwilio Mewnol AD Strategol a chyflwyno adroddiad cynnydd pellach yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor 4 Medi 2013.* ***[IB/LA/CR i weithredu]***

**8 DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2012/13**

Cyflwynodd y Pen Gyfrifydd (CA) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn darparu trosolwg o'r Datganiad Cyfrifon Drafft 2012/13 a'r broses sy'n ei ategu. Roedd y cyfrifon drafft wedi'u hatodi i'r adroddiad a byddent ar gael yn ffurfiol i'r cyhoedd eu harchwilio yn Awst.

Darparwyd diweddariad a throsolwg o'r cyfrifon drafft i aelodau a byddent yn derbyn y cyfrifol terfynol i'w cymeradwyo ym Medi 2013. Wrth ddarparu manylion sefyllfa ariannol y cyngor, tynnodd y Pen Gyfrifydd sylw'r aelodau at y meysydd canlynol o fewn y cyfrifon –

- sefyllfa refeniw ar gyfer y flwyddyn ac esboniad o'r addasiadau a wnaed

- y sefyllfa alldro refeniw ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol yn dangos tanwariant o £1.525m
- arenillion Treth y Cyngor yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd o £265k
- cyfraniadau at a gan gronfeydd a glustnodwyd
- y fantolen yn dangos gwerth asedau a rhwymedigaethau a'r fethodoleg newydd ar gyfer cyfrifo gwerth stoc y tai cyngor
- lwfansau aelodau a chydnabyddiaeth ariannol swyddogion
- partïon cysylltiedig gan gynnwys aelodau etholedig, swyddogion a chwmnïau
- y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Yn sgil natur gynhwysol a thechnegol y cyfrifon, cytunodd yr aelodau i graffu ar y ddogfen y tu allan i'r cyfarfod a chodi unrhyw gwestiwn yn uniongyrchol gyda'r swyddogion cyllid neu yng nghyfarfod 27 Medi pan gyflwynir y cyfrifon terfynol. Atgoffodd Mr Anthony Veale, Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) yr aelodau bod y cyfrifon yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru ond nad oedd unrhyw bryderon amlwg.

Ymholodd y Cynghorydd Brian Blakeley ynghylch sefyllfa Clwyd Leisure Ltd (CLL). Ymatebodd y Pen Gyfrifydd nad oedd y cyfrifon a archwiliwyd ar gyfer 2012/13 ar gael eto ar gyfer unrhyw un o'r cwmnïau cysylltiedig, a chadarnhaodd bod materion ehangach yn ymwneud â CLL yn cael eu trafod gyda nhw ar lefel uwch. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Gwyneth Kenser, ymhelaethodd y Pen Gyfrifydd ynghylch proses y cyngor i ddelio â buddiannau dod â swydd i ben, ac â disgresiwn, a chadarnhaodd y byddai unrhyw gynnydd mewn pensiwn yn arwain at greu cost barhaus.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r sefyllfa fel a gyflwynwyd yn y cyfrifon drafft.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**9 CYLLIDEB / CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG – Y DIWEDDARAF**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Arweinydd Arweiniol Cyllid ac Asedau, adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn diweddaru aelodau ynghylch setliadau cyllideb refeniw posibl a'r effaith bosibl ar gynllunio ariannol y Cyngor.

Yn sgil ansicrwydd ynghylch setliadau'r dyfodol, cytunwyd i ohirio diweddaru a chyhoeddi fersiwn 2013/16 o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hyd nes y ceir eglurhad gan Lywodraeth Cymru. Byddai effaith ariannol sylweddol ar draws y cyngor ac roedd amrywiaeth o oblygiadau posibl a sefyllfaoedd wedi'u modelu ar gyfer y tair blynedd nesaf wedi'u manylu o fewn yr adroddiad. Roedd sesiwn briffio i'r cyngor a drefnwyd ar gyfer 15 Gorffennaf wedi'i chadw ar gyfer gweithdy cyllideb i roi briff i aelodau ar y sefyllfa ariannol wrth symud ymlaen a darparu cyfle i drafod.

Byddai diweddariad pellach yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor 4 Medi. Mewn ymateb i gwestiynau fe wnaeth y Pen Gyfrifydd –

- ymhelaethu ynghylch effaith debygol Cyfrifiad 2011 ar arian grant cynnal refeniw y cyngor
- esbonio'r rhesymeg y tu ôl i gyfradd gasglu Treth y Cyngor a amcangyfrifwyd, gyda'r dybiaeth y byddai unrhyw arian dros ben yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r Cynllun Corfforaethol
- cytunwyd bod symud costau mewn gwasanaethau iechyd yn broblem a sefydlwyd dulliau i liniaru'r risg honno
- byddai arian yn cael ei geisio gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chanfyddiadau adroddiad yr ymchwilydd i lifogydd Tachwedd 2012.

***PENDERFYNWYD** nodi'r sefyllfa fel a gyflwynir yn yr adroddiad a'r atodiadau.*

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau'r busnes uchod, parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**10 FFRAMWAITH RHEOLI RISG STRATEGOL**

Cyflwynodd Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol (CITM) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ynglŷn â'r Fframwaith Rheoli Risg Strategol A lywodraethodd sut roedd y Cyngor yn rheoli risg ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth. Roedd manylion am y systemau ar waith er mwyn rheoli risg yn effeithiol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a oedd angen unrhyw gamau pellach i ddarparu sicrwydd am y fframwaith rheoli risg.

Gofynnodd yr Aelod Lleyg Paul Whitham am sicrwydd bod prosesau ar waith i ganfod risgiau yn gynnar i'w cynnwys o fewn y Gofrestr Risg Gorfforaethol (CRR). Esboniodd y CITM y dulliau ar gyfer canfod risgiau blaenllaw i'w hystyried gan yr Uwch Dîm Gweithredol (CET) ynghyd â gwaith y Swyddogion Gwella Corfforaethol a gwasanaethau unigol yn y cyswllt hwnnw. Cadarnhaodd bod swyddogion yn ystyried y risgiau a fanylir o fewn adroddiadau pwyllgor safonol ond fe ganfuwyd y mwyafrif o risgiau yn ystod sgyrsiau gyda gwasanaethau unigol. Cyfeiriodd y CITM at gyfrifoldebau CET fel perchnogion y gofrestr risg a rôl y Tîm Gwella Corfforaethol fel hwylusydd yn y broses honno.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad, at gyfrifoldebau'r swyddogion a'r aelodau etholedig i ganfod risg, gan gynnwys rôl y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn y cyswllt hwnnw. Cyfeiriodd at yr adroddiad Archwilio Mewnol diweddar ar y broses rheoli risg a'r argymhelliad i ymgysylltu'n well ag aelodau etholedig yn y broses honno. Ymatebodd y CITM y byddai Aelodau Cabinet yn chwarae rhan i adolygu'r CRR yn y dyfodol ochr yn ochr â CET. Mater arall a ddeilliodd o'r adroddiad archwilio oedd yr angen i rai gwasanaethau gynnwys rheolaeth risg ymhellach ac fe gynghorodd y CITM bod y Cyfarwyddwyr Corfforaethol yn chwarae rôl arweiniol yn y cyswllt hwnnw a adlewyrchwyd hefyd o fewn y broses herio gwasanaeth. Ychwanegodd y Rheolwr Archwilio bod nifer o awgrymiadau i hwyluso'r integreiddiad o reoli risg o fewn gwasanaethau wedi'i drafod gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Yn sgil cyfrifoldebau'r aelodau etholedig o fewn y broses rheoli risg, amlygodd y Cadeirydd yr angen am hyfforddiant ac roedd yn awyddus i bob aelod gyfranogi. Cytunwyd y byddai'r CITM yn darparu sesiwn briffio risg i aelodau yng nghyfarfod Briffio nesaf y Cyngor 16 Medi.

***PENDERFYNWYD*** –

(a) *derbyn a nodi'r adroddiad yn manylu ynghylch Fframwaith Rheoli Risg Strategol,*

(b) *bod y Rheolwr Tîm Gwella Corfforaethol yn darparu Sesiwn Briffio Risg yn Sesiwn Briffio nesaf y Cyngor 16 Medi 2013.* ***[TW i weithredu]***

Ar y pwynt hwn (11.40 a.m.) cymerodd y Cyngor egwyl am luniaeth.

**11 SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU: GWAITH ARCHWILIO PERFFORMIAD A FFIOEDD 2013-14**

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Tîm Gwella Corfforaethol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno rhaglen gwaith archwilio perfformiad i'w gynnal gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) yng Nghyngor Sir Ddinbych yn ystod 2013 – 14 a'r ffi gysylltiedig am y gwaith hwnnw. Ymhelaethodd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru, Mr Gwilym Bury, ynghylch elfennau penodol y gwaith ar gyfer Sir Ddinbych yn ymdrin â –

- Diweddariad Asesiad Corfforaethol
- Archwiliad Cynllun Gwella
- Archwiliad Asesu Perfformiad
- Adolygiad Ansawdd Data
- Adolygiad Lleol

Yn ogystal â hyn, byddai rhaglen gwella ac Astudiaethau Cenedlaethol Llywodraeth Leol yn cael ei chynnal mewn perthynas ag –

- Astudiaeth gwella – Diogelu
- Astudiaethau Cenedlaethol Llywodraeth Leol – Diwygio Lles a Darparu gyda llai – yr effaith ar wasanaethau a dinasyddion

Cynghorwyd aelodau mai Sir Ddinbych oedd yr ail isaf gyda ffioedd perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, a adlewyrchodd yn rhannol risg is y cyngor o'i gymharu ag ychydig o flynyddoedd yn ôl. Ychwanegodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill bod hyn o ganlyniad i waith rhagweithiol a wnaed gan y cyngor dros y blynyddoedd diwethaf.

Mewn ymateb i gwestiynau, darparodd Mr Bury rywfaint o derfynau amser dangosol ar gyfer pob darn o waith ar gyfer Sir Ddinbych. O ran astudiaethau cenedlaethol, nid oedd unrhyw benderfyniad wedi'i wneud hyd yn hyn ynglŷn â pha awdurdodau fyddai'n cael eu dewis ar gyfer gwaith maes, ond byddai'r astudiaethau'n cael eu cynnal yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Byddai adroddiad cenedlaethol ar sefyllfa

Cymru gyfan yn cael ei gynhyrchu ac mae'n debygol y byddai'r cynghorau a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth hefyd yn derbyn adborth unigol.

Roed y pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn yr adroddiadau yn y dyfodol a –

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Gwaith Archwilio Perfformiad a Ffioedd 2013 – 14.*

## 12 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd rhaglen waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'w hystyried.

Yn ystod y drafodaeth, amlygodd y Cynghorydd Martyn Holland yr angen am ddull i gynrychiolwyr aelodau etholedig ar gyrff allanol i adrodd yn ôl i'r cyngor ar eu gweithgareddau. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (HLDS) ddarparu protocol drafft ar gyfer y diben hwnnw er ystyriaeth y pwyllgor. Ar ôl trafodaeth bellach fe wnaeth y pwyllgor –

- ail gadarnhau bod yr eitemau ychwanegol canlynol yn cael eu cynnwys er ystyriaeth yn y cyfarfod nesaf 4 Medi 2013 –

  - Hunanasesiad Corfforaethol ***[IB i weithredu]***
  - Diweddariad Adroddiad Archwilio Mewnol AD Strategol ***[IB/LA/CR i weithredu]***
  - Adroddiad Archwilio Mewnol Ysgol Clawdd Offa ***[IB i weithredu]***

- cytuno yn sgil yr eitemau ychwanegol i'w hystyried uchod, bod cyfarfod nesaf y pwyllgor yn cael ei gynnal yn gynharach am 9.00 a.m. ***[KEJ i weithredu]***
- cytuno i dderbyn y Gofrestr Risg Gorfforaethol fel eitem fusnes bob chwe mis ***[TW i weithredu]***, a
- gofynnir bod yr HLDS yn darparu protocol drafft i gynrychiolwyr ar gyrff allanol i adrodd yn ôl ynghylch eu gweithgareddau ar gyfer cyfarfod Tachwedd. ***[GW i weithredu]***

***PENDERFYNWYD****, yn destun y diwygiadau a'r cytundebau y cyfeirir atynt uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 p.m.